**TUDALEN 25**

Cofnodion y **Pwyllgor Llywodraethiant, Staffio a Chyllid o bell**, a gynhaliwyd drwy fideo-gynadledda Zoom **Nos Lun 19 Gorffennaf 2021** am 6.30 pm.

**YN BRESENNOL: -** Cynghorwyr George Turner (Cadeirydd), John Martin, Enid Parry (gadawodd am 8-14pm), Gwynant Roberts, Gareth Roberts, Luke Tugwell, Les Day, Kieran Jones, John Wynn Jones, Dylan Fernley, John Wyn Williams (ymunodd am 6-54pm)

Swyddogion:- Iwan Williams (Cyfarwyddwr Dinesig), Gwynfor Owen a Delyth Davies (Cyfieithwyr), Sioned Jones (Cofnodion)

**70/21 YMDDIHEURIADAU**

Dim

**71/21 DATGAN BUDDIANT ARIANNOL NEU GYSYLLTIAD PERSONOL**
Mynegodd y Cynghorydd Luke Tugwell diddordeb yn Frân Wen gan iddo fod yn helpu'r cwmni hwn.

**72/21 CYFRANOGIAD Y CYHOEDD**
Kate Jones, Maggie Doherty, Colin Daimond (Bangor Arts Initiative); Nia Jones, Gethin Evans (Frân Wen).

**73/21 Y CELFYDDYDAU A DIWYLLIANT YM MANGOR: TRAFODAETH GYDA FRÂN WEN A BANGOR ARTS INITIATIVE**

Croesawodd y Cadeirydd i'r cyfarfod Kate Jones, Maggie Doherty a Colin Daimond o Bangor Arts Initiative a Nia Jones a Gethin Evans o Frân Wen. Gwahoddodd y ddau grŵp i roi trosolwg o'u nodau a'u cynlluniau:

**Bangor Arts Initiative**
Amlinellodd y cynrychiolwyr ddiben eu prosiect gan ddweud mai eu nod yw creu ymgysylltiad a chyfranogaid y cyhoedd ym Mangor, Caernarfon a Phen Llŷn.

- Enw'r prif brosiect yw *Lleu – Light Up Gwynedd*
- Bydd yn rhedeg o Haf 2021 hyd at Wanwyn 2023
- Mae eisoes wedi derbyn y swm o £143,000 gan Gyngor Celfyddydau Cymru. Ei obaith yw cyrraedd cyfanswm cyllid o £166,000, i'w rannu rhwng y 3 ardal ddaearyddol.
- Bydd y prosiect yn dechrau yn yr hydref a'r bwriad yw creu prosiect sy'n cael ei arwain gan y gymuned a fydd yn dod yn rhan ohono.
- Bydd y prosiect yn cael ei rannu'n 3 cangen - bydd y gangen drwy Bangor Arts Initiative yn cael ei harwain gan Maggie Doherty, Kate Jones o *Cimera* gyda syrcas a dawns yn rhan o'r cynllun, ynghyd â Colin Daimond, cerddor, dawnsiwr ac addysgwr.
- Hen air Cymraeg am oleuni yw *Lleu*, a'r syniad yw defnyddio goleuni neu themâu goleuni i greu gorymdeithiau, gweithgareddau awyr agored, gosodiadau, cerddoriaeth. Bydd cyfres o wahanol ddigwyddiadau *pop-up* yma a thraw.

**TUDALEN 26**

- Mae'r pwyslais ar gael y gymuned i lywio'r gwaith, ond mae diddordeb gan y cwmni mewn defnyddio mannau gwyrdd y Ddinas, hefyd y Pier. Eu gobaith fyddai cael busnesau'r Ddinas i gymryd diddordeb a cheisio adeiladau digwyddiad blynyddol (neu bob dwy flynedd).
- Maent eisoes wedi bod yn gweithio yng nghanol y Ddinas ond hoffent ymestyn i ardaloedd fel Hirael a Choed Mawr hefyd.
- Straeon posibl: hoffent ddod â'r môr a'r arfordir i mewn i Fangor yn fwy; maent hefyd yn awyddus i archwilio'r amrywiaeth sydd ym Mangor. Dathlu'r gwahanol bobl sy'n byw ym Mangor.
- Syrcas, celfyddyd gain, drymio, drama, dawns: mae ystod o bethau a all fod yn rhan o'r prosiect. Gallant ymateb i syniadau a dymuniadau'r rhai sy'n cymryd rhan.
- Mae ymgynghori ar fin dechrau gyda'r gobaith o gael digwyddiad bach dros fis Rhagfyr 21 – Mawrth/Ebrill 2022. Cynhelir y prif ddigwyddiad yng ngwanwyn a haf 2023.

Diolchodd y Cadeirydd i'r cynrychiolwyr am eu cyflwyniad bywiog a gofynnodd sut gallai'r Cyngor helpu yn y tymor byr.

Atebodd y cynrychiolwyr y gallai'r Cyngor helpu drwy ddarparu mannau gwyrdd, cefnogaeth ar y cyfryngau cymdeithasol a chyhoeddusrwydd.
Byddai grŵp llywio'n cael ei sefydlu a hoffent wahodd aelod o'r Cyngor i eistedd ar y grŵp hwn.
PENDERFYNWYD cefnogi Bangor Arts Initiative yn y dyfodol a thrafod cael aelod ar y grŵp llywio pan fyddai'r aelodau o'r cyhoedd wedi gadael.

**Fran Wên**

- Cwmni Theatr yw Frân Wen sy'n cael ei redeg gan ac ar gyfer pobl ifanc. Mae ganddo 80 o bobl ifanc o ogledd orllewin Cymru yn cyfrannu'n rheolaidd at ei weithgareddau, wedi'u rhannu'n wahanol grwpiau oedran. Mae'r bobl ifanc yn gweithio ar bopeth o lywodraethu i lwyfannu, llunio'r rhaglenni a chreu sioeau. Mae croeso i bawb ac mae'r cwmni'n ymdrechu bob amser i dargedu grwpiau sy'n cael eu tangynrychioli.
- Cwmni cyfrwng Cymraeg yw hwn. Mae'r cwmni'n cynhyrchu sioeau lleol a hefyd cynyrchiadau sy'n teithio ledled Cymru.
- Ceir pwyslais ar arloesi.
- Ni ddaeth y gwaith i ben oherwydd y pandemig, a llwyddodd y cwmni i gynhyrchu cynhyrchiad theatrig digidol a gafodd ei wylio gan filoedd.
- Ym mis Awst bydd Frân Wen yn cymryd uned yng Nghanolfan Deiniol i arddangos ei waith.
- Ymhlith prosiectau eraill, ar hyn o bryd maent yn gweithio ar sioe newydd gyda'r cerddor a'r bardd o Fangor, Casi Wyn.
- Y gobaith yw y bydd llawer o gyfleoedd i weithio gyda'r gymuned leol, maent eisoes yn gwneud llawer o waith mewn addysg, ac i Gelfyddydau ar Bresgripsiwn.
- Wedi tyfu allan o'u hadeilad presennol, fe brynon nhw hen Eglwys y Santes Fair yn 2019 ac ers hynny maent wedi bod yn gweithio'n galed i adnewyddu'r adeilad. Bu'r gymuned yn rhan o'r gwaith hwn a diolchwyd i'r Cynghorydd Luke Tugwell am ei gefnogaeth.

**TUDALEN 27**

Yn yr adeilad bydd stiwdios ar gyfer cynyrchiadau mawr a bach, a bydd y rhain yn ystafelloedd amlbwrpas. Cynhelir diwrnod agored ar 29 Gorffennaf, mae'n rhaid cofrestru ymlaen llaw.

- Daeth y gost o brynu ac adnewyddu'r adeilad i £3.8 miliwn. Mae'r cwmni wedi llwyddo i godi £3.77 miliwn drwy wahanol ffynonellau cyllid, e.e. y Loteri, Cyngor Celfyddydau Cymru, gwahanol waddoliadau. Enw'r ganolfan fydd *Nyth*.
- Disgwylir y bydd y broses dendro wedi'i chwblhau erbyn dechrau Awst gyda'r gwaith yn cael ei orffen erbyn mis Medi 2022. Maent yn gobeithio bod ar agor i'r cyhoedd ym mis Ionawr 2023 ond bydd gwaith yn parhau gyda'r gymuned o hyn ymlaen, yn cynnwys cyfleoedd gwirfoddoli.

Diolchodd y Cadeirydd i Nia Jones a Gethin Evans am gyflwyniad ardderchog arall a thrafodwyd rhai cwestiynau, yn cynnwys perthynas Nyth â Pontio. Sicrhawyd yr aelodau fod Pontio yn allweddol i'r prosiect ac y byddent yn parhau i weithio'n agos gyda'i gilydd. Fel y grŵp blaenorol, roedden nhw'n awyddus i weithio yn yr awyr agored hefyd.

Gadawodd y cynrychiolwyr y cyfarfod.

**PENDERFYNWYD**

a) Enwebu'r Cyng Gareth Roberts i eistedd ar grŵp llywio Bangor Arts Initiative.
b) Gan nad oedd yr un o'r ddau gwmni wedi gwneud cais ffurfiol am gyllid, peidio â chynnig cyfraniad ariannol ar hyn o bryd, ond cadw'r ddau grŵp mewn cof yn nes ymlaen yn y flwyddyn ariannol.

**74/21 CEISIADAU AM GYLLID**

*Llyfryn Cofeb Rhyfel*

Adroddodd y Cyfarwyddwr Dinesig fod hanesydd lleol wedi gofyn i'r Cyngor am gymorth ariannol i argraffu llyfryn am ddau blac coffa'r Rhyfel Byd Cyntaf a oedd wedi gorfod cael eu symud o Eglwys Dewi Sant, Glanadda, pan gaewyd yr eglwys ac oedd wedi'u hail-osod yn yr Orsaf Drenau. Byddai'r llyfryn, tua 10 tudalen, yn costio rhwng £600 a £1000 i'w argraffu.

Bu tipyn o drafodaeth am gost hyn a rhywfaint o amheuaeth am y fenter gan fod y pwnc, er yn ddiddorol a theimladwy, yn lleol iawn, yn ymwneud â thua 10 teulu yn unig. Awgrymodd rai aelodau godi am y llyfryn, ond, roedd hi'n anodd gweld sut byddai modd mynd ati i gasglu'r tâl. Holwyd a oedd hwn yn ddefnydd da o arian cyhoeddus. Gan nad oedd hi'n glir sut roedd y sawl a wnaeth y cais yn bwriadu dosbarthu'r llyfrynnau hyn, **PENDERFYNWYD** y byddai'r Cyfarwyddwr Dinesig yn mynd yn ôl at yr unigolyn eto i gael mwy o wybodaeth.

*Grŵp Placiau Bangor*

Siaradodd y Cynghorydd Les Day ar ran y grŵp hwn gan ei bod hi'n aelod ohono. Atgoffodd y Pwyllgor am yr ymdrech lwyddiannus i osod 7 plac yn 2008 i anrhydeddu 7 o enwogion Bangor. Cymdeithas Ddinesig Bangor yw un o'r prif rai sy'n arwain ar yr ymgyrch hon ac maen nhw wrthi'n ymchwilio a chael prisiau i'r placiau newydd. Maent eisoes wedi cael pris o £225 am bob plac unigol. Gofynnodd y Cyng Day am gefnogaeth y pwyllgor i symud ymlaen gyda'r gwaith hwn. Roedd pawb o blaid mewn egwyddor, er na wnaed ymrwymiad ariannol am y tro.

**TUDALEN 28**

**75/21 CYLLIDEB Y CYNGOR 2021/22: TROSGLWYDDO ARIAN**

Eglurodd y Cyfarwyddwr Dinesig sut roedd yn cynnig trosglwyddo arian o wahanol benawdau'r gyllideb, fel a ganlyn:
£1,200 i'r yswiriant (o'r cyllid Gefeillio)
£10,000 i'r Coed (o adnewyddu'r Cloc). Roedd hyn ar ben y £15,000 a ddyrannwyd yn barod ac roedd ar gyfer y gwaith brys o ddelio â phroblem Clefyd y Coed Ynn yng Nghoedydd Menai.
£5,000 i Atgyweirio/Cynnal a Chadw'r Pier (o adnewyddu'r Cloc). Roedd hyn ar gyfer y gwaith brys o brynu pren er mwyn symud ymlaen ar brosiectau'r Linkspan a'r Orsaf Bwmpio
£6,000 i Atgyweirio/Adnewyddu'r Pier (o Atal Trosedd/CCTV). Roedd hyn ar ben y £12,000 a ddyrannwyd yn barod
Bydd angen trafod ymhellach y gyllideb o £7,500 a neilltuwyd i Bwyllgor Cronfa Cefnogaeth Covid wrth weld sut mae'r sefyllfa'n datblygu dros yr wythnosau/misoedd nesaf.

**PENDERFYNWYD:** Roedd pawb o blaid.

**76/21 STRWYTHUR STAFFIO**

Eitem gaeedig.

**77/21 MATERION ARIANNOL**

- Anfonebau i'w Talu
- Dyledion heb eu Talu
- Derbyn cyfrifon y chwarter cyntaf a anfonwyd eisoes.

Roedd y dogfennau uchod i gyd wedi'u rhannu cyn y cyfarfod. CYMERADWYWYD y taliadau gan y pwyllgor.

**78/21 EITEMAU AR GYFER Y CYFARFOD NESAF**

Dim

**Daeth y cyfarfod i ben am 9.00 pm**

CITY DIRECTOR– Iwan Williams – CYFARWYDDWR DINESIG